Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro
Cardiff & Vale Safeguarding Board

# Bwrdd Diogelu
# Cylch Gorchwyl

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon wedi'i chynhyrchu yn unol â'r canllawiau statudol o fewn Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Adrannau 134-138). Mae Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro (BDCF) yn gyfrifol am ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl ledled Caerdydd a Bro Morgannwg.

## Amcanion

Amcanion Bwrdd Diogelu yw:

- Amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion mewn perygl yn ei ardal sy’n profi camdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed neu sydd mewn perygl o brofi’r rhain, ac
- Atal plant, pobl ifanc ac oedolion yn ei ardal rhag bod mewn perygl o brofi camdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed.

## Swyddogaethau

1. Cyfrannu at sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol yn cael eu monitro ac yn parhau’n addas at y diben, drwy ymgysylltu â'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a Byrddau Diogelu eraill, a chyfrannu at ddatblygu polisïau a gweithdrefnau i gydlynu'r hyn a wneir gan y partneriaid a'r cyrff a gynrychiolir ar y Bwrdd at ddibenion amddiffyn oedolion a phlant ac atal camdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed i oedolion a phlant o fewn ardal y Bwrdd

2. Codi ymwybyddiaeth yn ardal y Bwrdd o amcanion y Bwrdd i amddiffyn plant ac oedolion a’u hatal rhag bod mewn perygl o brofi camdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed, ac i roi gwybodaeth am sut y gellir cyflawni hyn

3. Adolygu effeithiolrwydd y mesurau a gymerwyd gan bartneriaid y Bwrdd Diogelu a’r cyrff a gynrychiolir ar y Bwrdd a chan gyrff eraill sydd â chyfrifoldebau diogelu yn ardal y Bwrdd, naill ai'n unigol neu ar y cyd, i weithredu amcanion y Bwrdd ac i wneud unrhyw argymhellion y mae'n eu hystyried yn addas i'r cyrff hynny yng ngoleuni adolygiad o'r fath

4. Cynnal Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl (ADUS)

5. Cynnal archwiliadau, adolygiadau ac ymchwiliadau fel sy'n ofynnol yn unol â'i amcanion; Monitro i ba raddau y mae unrhyw argymhellion wedi’u gwneud o dan baragraff (3) neu (4) yn cael eu bodloni neu wedi'u bodloni.

6. Adolygu perfformiad y bwrdd a pherfformiad y partneriaid a’r cyrff a gynrychiolir ar y Bwrdd wrth gyflawni ei amcanion

7. Dosbarthu gwybodaeth am arfer gorau a dysgu sy’n codi o adolygiadau o dan baragraff (4) neu (5), i rannu gwybodaeth am aelodau o’r Bwrdd, Byrddau Diogelu eraill, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, a phlant ac oedolion sy’n cael, neu a allai gael, eu heffeithio gan y gwaith o gyflawni swyddogaethau'r Bwrdd Diogelu, ac i nodi, archwilio ac ymateb i faterion sy’n codi sy’n effeithio ar y gwaith o gyflawni amcanion y Bwrdd

8. Dosbarthu gwybodaeth am arfer gorau a dysgu sy’n codi o adolygiadau o dan baragraff (4) neu (5), i rannu gwybodaeth am aelodau o’r Bwrdd, Byrddau Diogelu eraill, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, a phlant ac oedolion sy’n cael, neu a allai gael, eu heffeithio gan y gwaith o gyflawni swyddogaethau'r Bwrdd Diogelu, ac i nodi, archwilio ac ymateb i faterion sy’n codi sy’n effeithio ar y gwaith o gyflawni amcanion y Bwrdd

9. Hwyluso ymchwil i amddiffyn rhag ac atal cam-drin ac esgeuluso plant ac oedolion sydd mewn perygl o niwed

10. Adolygu anghenion hyfforddiant yr ymarferwyr hynny sy'n gweithio yn ardal y Bwrdd er mwyn nodi gweithgareddau hyfforddiant ac i ddarparu hyfforddiant a sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar sail sefydliadol unigol a rhyngasiantaethol i gynorthwyo i amddiffyn plant ac oedolion mewn perygl yn ardal y Bwrdd ac i atal eu cam-drin a’u hesgeuluso

11. Cydweithredu ag un neu fwy o Fyrddau eraill neu gyrff tebyg eraill yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, neu awdurdodaethau eraill, lle mae'r Bwrdd o'r farn y bydd yn ei gynorthwyo i gyflawni ei amcanion

12. Ceisio cyngor neu wybodaeth arbenigol lle mae'r Bwrdd o'r farn ei bod yn berthnasol i'w gynorthwyo i weithredu ei amcanion

13. Ymateb i unrhyw hysbysiad i'r Bwrdd mewn perthynas ag unrhyw un o'i swyddogaethau

14. Gall Bwrdd Diogelu hefyd gymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd arall sy'n hwyluso neu sy'n ffafriol i gyflawni ei amcanion

15. Sicrhau bod asiantaethau sy'n aelodau o’r Bwrdd yn cadw at holl egwyddorion craidd a dogfennau canllaw wedi'u cadarnhau’r Bwrdd

16. Datblygu, cynnal a monitro fframwaith perfformiad amlasiantaethol sy'n tystio i effeithiolrwydd diogelu ar draws pob asiantaeth ac sy'n caniatáu craffu a herio effeithiol

17. Tystio'r dysgu o adolygiadau i ddangos bod hyn wedi arwain at welliannau yn ymarferol

Er mwyn cyflawni'r swyddogaethau hyn yn effeithiol, mae'r Bwrdd wedi gweithredu strwythur llywodraethu sydd i'w weld yn Atodiad 1. Gellir sefydlu gweithgorau pan fo angen a byddant yn cynnwys asiantaethau partner perthnasol yn ôl yr angen. Mae'r holl waith a wneir gan y Bwrdd yn cael ei gydlynu a'i gefnogi gan Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu. Cyfrifoldeb aelodau o'r Bwrdd yw enwebu aelodau o'r is-grŵp o'r tu mewn i'w sefydliad yn briodol, gan ystyried yn briodol yr arbenigedd / rôl bwrpasol a fyddai o fudd i bob is-grŵp.

Gellir dod o hyd i ddolenni i'r cylch gorchwyl ar gyfer pob is-grŵp ar dudalen 6 y ddogfen hon.

## Trefniadau Cadeirio

Rhaid i'r Bwrdd Diogelu, trwy benderfyniad mwyafrif, benodi o leiaf dau o'i aelodau i fod yn Gyd-gadeiryddion. Gall y penodiad fod am gyfnod o hyd at dair blynedd ac ar ddiwedd hynny gellir ei adnewyddu am gyfnod pellach o hyd at dair blynedd. Gall fod yn fuddiol i Fwrdd Diogelu fod ag un cyd-gadeirydd o bartner gwahanol neu gorff sy'n cael ei gynrychioli ar y Bwrdd sy'n wahanol i un y cyd-gadeirydd arall/cyd-gadeiryddion eraill.

## Aelodaeth

Bydd y Bwrdd Diogelu yn cynnwys aelodau ar lefel cyfarwyddwr neu gyfwerth sydd â digon o awdurdod i wneud penderfyniadau strategol a dwyn sefydliadau i gyfrif yn effeithiol.

Mae aelodaeth yn cydymffurfio â'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan Ran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.

Bydd aelod o'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn cael ei wahodd i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd ond ni fydd yn cymryd rhan mewn unrhyw bleidleisio neu wneud penderfyniadau.

Bydd gan y Bwrdd Diogelu gynrychiolaeth gyfreithiol gan o leiaf un awdurdod lleol yn y cyfarfodydd.

Mae rhestr o aelodau wedi'i hatodi fel Atodiad 2.

Bydd y ddogfen hon ochr yn ochr â'r pecyn sefydlu yn cael eu rhoi i benodiadau newydd i Fwrdd Diogelu i sicrhau eu bod yn deall y disgwyliadau a'r ymrwymiad sy'n ofynnol gan aelod o'r Bwrdd ac i'w sefydlu i swyddogaethau a llywodraethu'r Bwrdd. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod aelodau o'r Bwrdd Diogelu yn glir o ran eu hatebolrwydd i'w gilydd ac i'r Bwrdd yn ei gyfanrwydd i gyflawni eu cyfrifoldeb ar y cyd - rhaid i bob partner Bwrdd Diogelu gymryd pob camau rhesymol i sicrhau bod y Bwrdd Diogelu y mae'n cael ei gynrychioli arno yn gweithredu'n effeithiol.

## Cyfarfodydd

### Amlder cyfarfodydd

- Bydd cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu cynnal bob chwarter. Bydd dyddiadau'n cael eu nodi a'u dosbarthu’n flynyddol.

- Bydd un diwrnod cynllunio/datblygu a/neu hunanasesu blynyddol yn cael ei gynnal bob blwyddyn.

- Bydd cyfarfodydd ychwanegol y Bwrdd yn cael eu cynnal yn ôl yr angen.

**Gweinyddu**

Bydd agendâu yn cael eu cynllunio ymlaen llaw gan y Cadeiryddion a'r Rheolwr Busnes. Gall unrhyw aelod o'r grŵp ofyn i eitemau gael eu rhoi ar agenda cyfarfod y Bwrdd trwy gyflwyno cais i'r Rheolwr Busnes.

Bydd Uned Fusnes y Bwrdd Diogelu yn rhoi cymorth gweinyddol i'r Bwrdd Diogelu a'r is-grwpiau. Bydd agendâu ac unrhyw adroddiadau perthnasol yn cael eu dosbarthu cyn y cyfarfod.

**Gwneud Penderfyniadau**

Bydd pob penderfyniad yn cael ei wneud trwy bleidlais fwyafrifol.
Bydd pleidlais ranedig yn mynd i'r Cadeirydd am benderfyniad terfynol.

**Cworwm**

Er mwyn ystyried bod cyfarfod â chworwm, rhaid i'r cyfarfod fod â chynrychiolwyr o dri phartner statudol o leiaf. Fodd bynnag, gall cyfarfodydd fynd rhagddynt os nad oes ganddynt gworwm llawn yn ôl disgresiwn y Cadeirydd.

**Gwrthdaro buddiannau**

Cyfrifoldeb aelod yw datgan unrhyw wrthdaro buddiannau o ran materion ar yr agenda i Gyd-gadeiryddion y Bwrdd a Rheolwr Busnes y Bwrdd Diogelu.

## Herio Effeithiolrwydd y Bwrdd Diogelu ac Asiantaethau Partner

Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb cyffredinol am herio asiantaethau perthnasol i sicrhau’r canlynol:

- Bod mesurau effeithiol ar waith i amddiffyn pobl sy'n profi niwed neu a allai fod mewn perygl o niwed.

- Bod cydweithrediad rhyngasiantaethol effeithiol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau diogelu ac wrth rannu gwybodaeth.

## Trefniadau Adrodd

Cyflwyno cynllun blynyddol ac adroddiad blynyddol a fydd yn cael eu hanfon i Lywodraeth Cymru, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, a phartneriaethau strategol eraill o fewn cyfrifoldebau diogelu, gan gynnwys y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac i strwythurau llywodraethu aelod-asiantaethau.

Bodloni gofynion adrodd cyrff cenedlaethol a rhanbarthol, e.e. Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

Rhoi gwybod am bryderon i Lywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, yn ôl yr angen, ynghylch materion sy'n ymwneud â chyfraniadau/ymrwymiad/arferion diogelu aelodau na ellir eu datrys ym Mwrdd Diogelu Gogledd Cymru.

### Trefniadau Monitro ac Arolygu Allanol

Mae angen i bob aelod o'r Bwrdd Diogelu gyflwyno gwybodaeth i'w briod arolygiaeth am y trefniadau sydd ar waith yn ei asiantaeth neu ei sefydliad i ddiogelu lles plant ac oedolion. Gall arolygwyr ofyn am sicrwydd bod asiantaethau unigol sy'n aelodau o'r Bwrdd yn ymgysylltu'n briodol â'r Bwrdd Diogelu. Efallai y bydd angen i asiantaethau sy'n aelodau o'r Bwrdd adrodd i'r Bwrdd unrhyw adborth sy'n ymwneud â'r elfennau diogelu gydag unrhyw gynlluniau gweithredu a ddatblygwyd i ymateb i'r arolygiad.

## Sianeli Cyfathrebu

- Cyfathrebu â'r is-grwpiau ar flaenoriaethau strategol
- Sicrhau cyfathrebu effeithiol â phartneriaethau rhanbarthol perthnasol eraill
- Cyfathrebu â Byrddau Diogelu rhanbarthol eraill yng Nghymru fel y bo'n briodol a'r Bwrdd Diogelu Plant Annibynnol Cenedlaethol

## Cymorth Cyfreithiol

I'w roi gan adran gyfreithiol yr Awdurdod Lleol lletyol

## Diwygiadau i'r Cylch Gorchwyl

Bydd y Cylch Gorchwyl yn cael ei adolygu'n flynyddol a bydd unrhyw ddiwygiadau yn cael eu gwneud ar ôl i'r Bwrdd eu cymeradwyo

## Cyfraniad Ariannol ac Adnoddau

Mae'r Bwrdd Diogelu yn cael ei ariannu gan gyfraniadau gan asiantaethau partner statudol sydd wedi cytuno ar y fformiwla ariannu fel y nodir yn nogfen Llywodraeth Cymru 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 1 – Cyflwyniad a Throsolwg'. Mae rôl Partner Arweiniol y Bwrdd Diogelu wedi'i nodi yn y canllawiau hyn a'r Partner Arweiniol yw Cyngor Sir Caerdydd, sy'n gweithredu fel deiliad y gyllideb.

Mae'r gyllideb yn cael ei defnyddio i ariannu gwahanol ffrydiau gwaith y Bwrdd. Mae'r gyllideb hefyd yn talu am adnoddau Uned Fusnes Bwrdd Diogelu rhanbarthol sy'n cynnwys

Rheolwr Busnes, Rheolwr Adolygu, Cydlynwyr Busnes a staff Cymorth Gweinyddol sy'n rhoi cymorth i'r Bwrdd ac is-grwpiau'r Bwrdd. Sefydliad lletyol yr Uned Fusnes yw'r Partner Arweiniol hefyd. Pan fo cyfraniadau ariannol ychwanegol yn cael eu dyrannu i fyrddau diogelu rhanbarthol i fynd i'r afael ag anghenion rhanbarthol neu genedlaethol, mae'r Partner Arweiniol hefyd yn gweithredu fel deiliad y gyllideb ar gyfer yr arian hwnnw.

Mae'r graff a'r siart yn Atodiad 3 yn dangos sut mae'r Bwrdd yn cytuno ar arian gan bob asiantaeth ar hyn o bryd:

## Dolenni i Ddogfennau Craidd arall y Bwrdd

Mae'r Bwrdd Diogelu wedi cyhoeddi'r dogfennau canlynol a all gefnogi'r wybodaeth yn y ddogfen hon ymhellach.

Cynlluniau ac Adroddiadau Blynyddol

Pecyn Sefydlu BDCF

Cylch Gorchwyl y Grŵp Cyflawni

Cylch Gorchwyl y Grŵp Adolygu Achosion

Gweithdrefn Gwyno BDCF

Protocol BDCF ar gyfer Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol


Honiadau a Phryderon Diogelu BDCF

Fframwaith Dysgu BDCF

Fframwaith Sicrwydd Ansawdd ac Archwilio BDCF

Egwyddorion Cyfathrebu ac Ymgysylltu BDCF

**Atodiad 1** Strwythur Llywodraethu Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro



Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro
Cardiff & Vale Safeguarding Board


**Atodiad 2** Aelodaeth Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro

Mae'r aelodaeth yn cydymffurfio â'r canllaw a gyhoeddwyd o dan Ran 7 (Adran 134(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014). Ceir rhestr o aelodau isod:

| | |
|---|---|
| **AWDURDOD LLEOL** | |
| **CYD-GADEIRYDD** Cyfarwyddwr Corfforaethol | Pobl a Chymunedau, Caerdydd |
| **CYD-GADEIRYDD** Cyfarwyddwr | Gwasanaethau Cymdeithasol, Bro Morgannwg |
| **CYD-GADEIRYDD** Cyfarwyddwr Cynorthwyol | NSPCC |
| Cyfarwyddwr | Gwasanaethau Plant, Caerdydd |
| Rheolwr Arweiniol Diogelu | Gwasanaethau Oedolion, Caerdydd |
| Pennaeth Cyflawniad i Bawb ar gyfer Gwella Ysgolion a Chynhwysiant | Addysg a Dysgu Gydol Oes, Bro Morgannwg |
| Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes | Yr Adran Addysg, Caerdydd |
| Pennaeth Gwasanaeth ar gyfer y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc | Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Chymorth Cynnar, Bro Morgannwg |
| Rheolwr Gweithredol y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid | Gwasanaethau Plant, Caerdydd |
| Rheolwr Gweithredol Partneriaethau a Chydgomisiynu | Tai, Caerdydd |
| Rheolwr Gweithredol, Tai'r Sector Cyhoeddus | Tai a Chymunedau, Cyngor Bro Morgannwg |
| **HEDDLU DE CYMRU** | |
| Ditectif Arolygydd, Adran Diogelu'r Cyhoedd | Heddlu De Cymru |
| **PRAWF** | |
| Pennaeth Uned Cyflenwi Prawf Caerdydd a'r Fro | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| **IECHYD** | |
| Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Pennaeth Diogelu | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Pennaeth Nyrsio - Diogelu | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |
| Dirprwy Bennaeth Diogelu | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |
| **FELINDRE** | |
| Pennaeth Diogelu a Phersonau sy'n Agored i Niwed | Ymddiriedolaeth GIG Felindre |

| TÎM DIOGELU CENEDLAETHOL, IECHYD CYHOEDDUS CYMRU | |
|---|---|
| Meddyg Teulu Diogelu Cenedlaethol | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **Y SWYDDFA GARTREF** | |
| Rheolwr Gweithrediadau Diogelu, Canolfan Diogelu Ffoaduriaid, Y Swyddfa Gartref | Y Swyddfa Gartref |
| **GWASANAETH CARCHARDAI EI FAWRHYDI** | |
| Dirprwy Lywodraethwr | Gwasanaeth Carchardai Ei Fawrhydi |
| **YMDDIRIEDOLAETH GIG GWASANAETHAU AMBIWLANS CYMRU** | |
| Pennaeth Diogelu | Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| **TRYDYDD SECTOR** | |
| Cyfarwyddwr Cynorthwyol | NSPCC |
| Rheolwr Gwasanaeth Gwasanaethau Ymwelwyr Annibynnol ac Eiriolaeth Caerdydd a Bro Morgannwg | NYAS |
| Cyfarwyddwr | Barnardo’s |
| Cyfarwyddwr Gweithredol | Llamau |
| **DARPARWYR GOFAL** | |
| Cadeirydd Cartrefi Gofal Bro Morgannwg/Fforwm Gofal Cymru | Cartrefi Gofal/Fforwm Gofal Cymru |
| **CYNGHORWYR YN BRESENNOL** | |
| Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfreithiol | Tîm Cymunedol - Cyfreithiol, Caerdydd |
| Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Cyfreithiol | Gwasanaethau Cyfreithiol Bro Morgannwg |

**Atodiad 3** Trefniadau Cyllideb Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro




| Sefydliad | Cyfraniad Cyfun (%) | Rhaniad yn ôl Sefydliad | Rhaniad Cyfraniad (%) | Rhaniad Cyfraniad (£) |
|---|---|---|---|---|
| Awdurdodau Lleol | 60% | Cyngor Caerdydd | 67% | £66,330.00 |
| | | Cyngor Bro Morgannwg | 33% | £32,670.00 |
| Heddlu De Cymru | 10% | Heddlu De Cymru | 100% | £16,500.00 |
| Iechyd | 25% | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 81.25% | £33,515.63 |
| | | GIG Felindre | 18.75% | £7,734.37 |
| Prawf | 5% | Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol | 100% | £8,250.00 |
| | | | **CYFANSWM** | 165,000 |